



Tŷr Cwmnïau

# Adroddiad Monitro Blynyddol Tŷr Cwmnïau 2013-14



© Hawlfraint y Goron 2014

Cewch aildefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio logos) yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v.2. I weld y drwydded hon ewch i [www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/2/](http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/2/) neu anfonwch neges e-bost at: [PSI@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:PSI@nationalarchives.gsi.gov.uk)

Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid i chi roi teitl y ddogfen/cyhoeddiad ffynhonnell. Lle y nodwyd deunydd trydydd parti, rhaid gofyn am ganiatâd deiliad hawlfraint y deunydd hwnnw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael ar: [www.tyrcwmniau.gov.uk](http://www.tyrcwmniau.gov.uk)

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn at: Tŷ'r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ neu e-bost: [enquiries@companieshouse.gov.uk](mailto:enquiries@companieshouse.gov.uk)

Mae fersiynau o'r adroddiad hwn mewn fformatau eraill ar gael o wneud cais o: [enquiries@companieshouse.gov.uk](mailto:enquiries@companieshouse.gov.uk)

Mae Tŷ'r Cwmnïau yn un o Asiantaethau Gweithredol yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau (BIS).

## Cyflwyniad

Paratowyd Cynllun Iaith Gymraeg Tŷ'r Cwmnïau yn unol ag adran 21(3) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg a chafodd gymeradwyaeth lawn Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar 20 Ebrill 2010.

Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2013 a 31 Mawrth 2014.

Alexandra Walters, y Prif Ymgynghorydd Polisi, sy'n gyfrifol am weithredu Cynllun Iaith Gymraeg TC. Mae hi'n gwneud hynny gyda chymorth tîm o siaradwyr Cymraeg sy'n ymdrin â materion pob dydd, a phwyllgor sy'n cyfarfod yn rheolaidd i fonitro cynnydd a pherfformiad.

## Dehongliad

"TC" yw Tŷ'r Cwmnïau

"Deddf 2006" yw Deddf Cwmnïau 2006

"y Cofrestrydd" yw'r Cofrestrydd Cwmnïau

"PAC" yw Partneriaeth Atebolwydd Cyfyngedig

"cwmni/PAC Cymreig" yw cwmni neu PAC, yn ôl diffiniad adran 88 o Ddeddf Cwmnïau 2006 (fel y bo'n berthnasol i PACau), sydd wedi hysbysu'r Cofrestrydd y lleolir ei swyddfa gofrestredig yng Nghymru. Adeg corffori, rhaid i gwmni ddweud a yw'n bwriadu lleoli ei swyddfa gofrestredig yng Nghymru, Lloegr a Chymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon. Rhaid i gyfeiriad swyddfa gofrestredig y cwmni fod yn y wlad y maent wedi datgan y lleolir ei swyddfa gofrestredig ynddi.

Caiff cwmni Cymreig dewis cael enw Cymraeg a therfyniad enw Cymraeg (h.y. cyfyngedig, cwmni cyfyngedig cyhoeddus) a chaiff ffeilio dogfennau statudol yn Gymraeg. Gall cwmni Lloegr a Chymru fod â chyfeiriad ei swyddfa gofrestredig yng Nghymru neu Loegr, ond ni all y cwmni gael enw Cymraeg na therfyniad enw Cymraeg, ac ni chaiff ffeilio dogfennau statudol yn Gymraeg.

## Cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg

Mae TC wedi ymrwymo o hyd i gydymffurfio â'i Gynllun Iaith Gymraeg, a rhwng 1 Ebrill 2013 a 31 Mawrth 2014, cyflawnodd y canlynol:

- Cynhaliodd y pwyllgor iaith gyfarfodydd chwarterol (Mehefin, Medi a Rhagfyr 2013, a Mawrth 2014) er mwyn gyrru cydymffurfiaeth â Chynllun Iaith TC ac adolygu cynnydd yn erbyn y Cynllun Gweithredu, sydd ynghlwm wrth yr adroddiad hwn.
- Parhaodd tîm o siaradwyr Cymraeg o wahanol feysydd o fewn TC i ymateb i ymholiadau cwsmeriaid, gyda phob aelod yn ymwybodol o feysydd arbenigedd y lleill. Cysylltodd pedwar ar ddeg o gwsmeriaid oedd yn siarad Cymraeg â ni ag ymholiadau. Ymhlith yr ymholiadau roedd sut i hysbysu aelodau am Gyfarfod Cyffredinol Blyneddol, a oes angen hysbysu TC pan fo cyfarwyddwr yn ymddiswyddo, a oedd dogfennau penodol wedi dod i law, a chyngor am ffeilio dogfennau penodol.
- Dalwyd ati i ohebu â chwsmeriaid yn ddwyieithog, lle bo hynny'n briodol, ac i sicrhau bod y ffurflenni sy'n cael eu ffeilio amlaf ar gael yn ddwyieithog, ar bapur ac ar ffurf electronig.
- Roedd yr holl ganllawiau ar gael yn ddwyieithog, ac eithrio'r rhai penodol nad ydynt yn berthnasol i Gwmnïau Cymreig (e.e. canllawiau ar faterion sy'n effeithio ar gwmnïau yr Alban yn unig).
- Fe fynychon ni chwech achlysur allanol yng Nghymru yn ystod y cyfnod o dan sylw, a darparwyd siaradwyr Cymraeg a deunyddiau Cymraeg ar gyfer y rhain. Fe fynychon ni dair sioe busnes, ffair fusnes, seminar cyfrifeg a seminar 'Cyfarwyddwyr Newydd' wedi ei threfnu gan TC.
- Croeso i gwsmeriaid ohebu â TC yn Gymraeg, a chânt ymateb i'w gohebiaeth yn Gymraeg. Yn ogystal, gall cwmnïau gofrestru ar gyfer ein gwasanaeth dwyieithog, lle'r anfonir yr holl ohebiaeth awtomatig atynt yn ddwyieithog. Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, cofrestrodd 19 o gwmnïau i gael gohebiaeth

ddwyieithog - fel hysbysiadau atgoffa - yn awtomatig. Hysbysebwr y cyfleuster hwn ar ein gwefan. Erbyn diwedd y cyfnod adrodd hwn, roedd tua 637 o gwmnïau a 29 Partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig (PAC), o gyfanswm o 3.25 miliwn sydd ar y gofrestr, wedi nodi eu bod am gael gohebiaeth ddwyieithog yn awtomatig.

- Daeth 156 set o gyfrifon iaith Gymraeg i law gan gwmnïau Cymreig, sydd 9 yn llai na'r llynedd. Cafodd pob un o'r cyfrifon hyn eu cyfieithu i'r Saesneg ar gyfer y cofnod cyhoeddus. Mae dyletswydd ar TC i gyfieithu rhai dogfennau sy'n cael eu ffeilio o'r Gymraeg i Saesneg. Yn ogystal, gwnaethom gais am gyfieithiadau o ryw 130 o ddarnau eraill er mwyn bodloni gofynion ein Cynllun Iaith. Roedd hyn yn cynnwys llythyrau, canllawiau, a gwaith prosiect, ar gyfer ein gwefan a'r gwasanaethau ar-lein.
- Cawsom un cais Rhyddid Gwybodaeth yn Gymraeg a darparwyd ymateb dwyieithog o fewn y cyfnod statudol.
- Rhannwyd gwybodaeth hanfodol â chwsmeriaid sy'n siarad Cymraeg am y dyddiadau ffeilio, achlysuron a hysbysiadau eraill trwy ein gwefan, trwy ohebiaeth ddwyieithog a thrwy ein cyfrif Twitter @TyrCwmnïau.
- Hysbysebwyd 7 swydd yn ddwyieithog ar ein gwefan Gymraeg a thrwy ein cyfrif Twitter Cymraeg.
- Roedd yr holl gontractau a gyhoeddwyd yn cynnwys cymal i sicrhau bod ein partneriaid gwasanaethu'n cydymffurfio â rhwymedigaethau TC o ran y Gymraeg.
- Tynnwyd sylw staff at unrhyw achlysuron Cymraeg yn yr ardal leol ar gyfer pawb oedd â diddordeb eu mynychu.

## Prif-ffrydio'r Gymraeg

Ystyriodd TC y Gymraeg yn y ffyrdd canlynol:

- Rydym wedi parhau i ystyried ein gwasanaethau cyfrwng Cymraeg o gychwyn cyntaf ein holl brosiectau trwy gynnwys y Gymraeg yn rhestrau cyfeirio'r holl reolwyr prosiect, ac mewn cynlluniau datblygu eraill.

- Cyflwynodd TC wasanaeth Corffori ar y We yn Gymraeg yn Ebrill 2013 er mwyn galluogi cwmnïau Cymreig i gofrestru yn Gymraeg, a chyda dogfen a thystysgrif corffori dwyieithog yn ymddangos ar y gofrestr cwmnïau. Mae'r gwasanaeth hwn wedi gweld defnydd cyson, ac yn ystod y cyfnod o dan sylw, defnyddiodd 278 o gwmnïau Cymreig y gwasanaeth.
- Darparwyd gwasanaeth i alluogi cwsmeriaid i gofrestru morgais neu arwystl ar-lein am y tro cyntaf yn Ebrill 2013, ac yn unol â'r polisi iaith, roedd y sgriniau ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- Ym Mai 2013, cynhyrchwyd arolwg dwyieithog i fesur boddhad cwsmeriaid, a'i nod oedd rhoi cyfle i gwsmeriaid gyflwyno adborth am unrhyw broblemau sydd ganddynt yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.
- Wrth i ni barhau i ddatblygu ein gwasanaethau digidol, yn rhan o agenda digidol yn bennaf y Llywodraeth, rydym wedi dechrau datblygu un gwasanaeth ar-lein i gymryd lle ein gwasanaethau cyfredol. Caiff ein cynlluniau craidd eu disodli dros yr ychydig flynyddoedd nesaf yn hyn o beth. Bydd hyn yn creu un gwasanaeth unigol newydd ar y we lle gellir gweld a diweddarau gwybodaeth am gwmni. Mae defnyddwyr cyfrwng Cymraeg wedi bod wrth galon y datblygiadau hyn.

Wrth i'r datblygiad hwn fynd yn ei flaen, rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod yr un gwasanaeth ar-lein yma ar gael yn Gymraeg, sy'n golygu y bydd modd i bobl sy'n chwilio'r gofrestr cwmnïau wneud hynny trwy gyfrwng y Gymraeg am y tro cyntaf. Yn ogystal, caiff cwsmeriaid sy'n ffeilio gwybodaeth ar gyfer cwmnïau Cymreig gofrestru mwy o'r dogfennau ffeilio statudol yn Gymraeg.

- Daw gwefan TC i ben wrth i ni symud i GOV.UK – sef un gwefan unigol i ymdrin â'r Llywodraeth. Y bwriad ar hyn o bryd yw cyflawni hyn tua diwedd 2014. Rydym wedi bod mewn trafodaethau cyson â Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth (GDS) er mwyn ceisio sicrhau bod cymaint â phosibl o gynnwys ein gwefan Gymraeg – [www.tyrcwmnïau.gov.uk](http://www.tyrcwmnïau.gov.uk) – yn cael ei drosglwyddo.

## Dangosyddion perfformiad

- Yn ystod y cyfnod o dan sylw, roedd 5,121 o gwmnïau Cymreig, a 53 o PACau Cymreig wedi eu corffori. Roedd cyfanswm o 533,011 o gwmnïau a 9,121 o PACau wedi eu corffori yn ystod y cyfnod hwn.
- Erbyn diwedd y cyfnod o dan sylw, roedd 13,743 o gwmnïau Cymreig, a 144 o PACau Cymreig ar y gofrestr, o'i gymharu â chyfanswm o 3,250,325 o gwmnïau a 59,998 o PACau.
- Yn ystod y cyfnod o dan sylw, roedd 139 o gwmnïau Cymreig ac 13 o PACau Cymreig wedi eu corffori â therfyniad enw Cymraeg h.y (cyfyngedig). Erbyn diwedd y cyfnod o dan sylw, roedd 830 o gwmnïau Cymreig a 26 o PACau Cymreig wedi eu corffori â therfyniad enw Cymraeg ar y gofrestr.
- Cafwyd cyfanswm o 576,015 o drawiadau ar ein gwefan Gymraeg, sydd rhyw 39,000 yn llai na'r flwyddyn adrodd flaenorol.

## Gwasanaethau'r Rheng Flaen

Canran a nifer y staff dwyieithog:

### Canolfan Gyswllt TC

Roedd tri aelod o staff dwyieithog yn y Ganolfan Gyswllt. Mae hyn gyfwerth â 4.7% o Staff Cyfartal ag Amser Llawn (FTE) y Ganolfan Gyswllt. Mae yna ofyniad contractiol bod ein cyflenwr yn darparu 2 siaradwr Cymraeg.

Os oes cwsmer yn gofyn yn benodol am gael siarad â siaradwr Cymraeg, ond nad oes un ar gael, rydyn ni'n cynnig y dewis i'r cwsmer o barhau â'r sgwrs yn Saesneg, neu ofyn am rif ffôn i gysylltu â'r cwsmer fel bod siaradwr Cymraeg yn gallu cysylltu â nhw'n uniongyrchol. Ni ddigwyddodd hyn am fod ein tîm Cymraeg penodedig ar gael bob amser.

## Y Dderbynfa Gyhoeddus

Nid oedd unrhyw staff dwyieithog yn nerbynfa TC. Mae'r staff yn gallu cyfarch ymwelwyr yn Gymraeg ac mae yna arwydd amlwg sy'n rhoi gwybod i ymwelwyr bod

gwasanaeth Cymraeg ar gael ar gais. Mae gan staff y dderbynfa restr o staff sy'n medru'r Gymraeg y gallant gysylltu â nhw os gwneir cais. Fodd bynnag, ni wnaeth unrhyw ymwelwyr gais am gael trafod eu busnes yn Gymraeg.

## Y Llinell Gymorth

Parhawyd i ddarparu un rhif ffôn allanol penodol ar gyfer cwsmeriaid sy'n siarad Cymraeg. Roedd y tîm o siaradwyr Cymraeg ar gael i ddelio ag unrhyw ymholiadau Cymraeg hefyd.

## Hyfforddiant ac Ymwybyddiaeth Iaith

Nifer y staff a gafodd hyfforddiant yn y Gymraeg hyd lefel cymhwyster ardystiedig:

Cynigiodd TC bum cwrs Cymraeg, a drefnwyd gan Brifysgol Morgannwg; Mynediad 1, Sylfaen 1, Canolradd 2, Uwch a Hyfedredd.

- Roedd saith aelod o staff yn y Dosbarth Mynediad 1 a ddechreuodd ym Medi 2013, ac roedd wyth aelod o staff yn y Dosbarth Sylfaen 1. Roedd y ddau ddosbarth yn cwrdd yn wythnosol yn ystod y tymor ac yn dilyn llyfr Cwrs Mynediad CBAC. Llwyddodd saith o'r Dosbarth Sylfaen 1 yn yr arholiad Mynediad ym Mehefin 2013.
- Roedd y Dosbarthiadau Canolradd 2 ac Uwch yn cwrdd yn wythnosol yn ystod y tymor ac yn dilyn llyfrau Cwrs Sylfaen a Chwrs Canolradd CBAC. Roedd pump aelod o staff yn y Dosbarth Canolradd 2 a saith yn y Dosbarth Uwch.
- Roedd y Dosbarth Hyfedredd yn cwrdd yn fisol yn ystod y tymor i drafod sefyllfaoedd gwaith, rhai ysgrifenedig a llafar. Roedd chwech aelod o staff yn y dosbarth yma.

Ym Mai 2013, cyflwynwyd Cynllun Mentora ar y cyd â Phrifysgol Morgannwg lle dechreuodd siaradwyr Cymraeg rhugl fentora'r rhai sy'n dysgu'r iaith yn TC. Gwirfoddolodd wyth o bobl ar gyfer y cynllun, a daethant at ei gilydd yn anffurfiol ar sail ad hoc er mwyn trafod gwaith cartref, a materion gwaith ac i ymarfer siarad Cymraeg â'u

cydweithwyr.

Nifer y staff sydd wedi cael hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith:

- Mae hyfforddiant Ymwybyddiaeth iaith yn rhan o hyfforddiant cynefino TC a chyflawnwyd un diwrnod cynefino yn ystod y cyfnod o dan sylw (roedd nifer fechan y diwrnodau cynefino oherwydd lefel isel y recriwtio yn ystod y cyfnod adrodd), a hynny ar gyfer un aelod o staff newydd.
- Defnyddiwyd hysbysiadau rheolaidd ar safle Mewnwyd TC i atgoffa staff am ein rhwymedigaethau o ran y Gymraeg.

### Technoleg Gwybodaeth

Nifer y systemau TG a gafodd eu hasesu gan ddefnyddio cynllun achredu meddalwedd dwyieithog y Bwrdd:

- Dim, ond ni sy'n rheoli ein systemau meddalwedd craidd i bob pwrpas. Mae'r cyfleuster i gynnwys y Gymraeg yn rhywbeth rydyn ni'n dewis ei ymgorffori.

Nifer y cynlluniau ar gyfer gwella a baratowyd yn sgil asesiadau gan ddefnyddio cynllun achredu meddalwedd ddwyieithog y Bwrdd:

- Amherthnasol.

### 5.4 Gweinyddu'r Cynllun

Nifer y cwynion a gafwyd am ddiffyg darpariaeth gwasanaethau yn Gymraeg a'r camau a gymerwyd i ddatrys y cwynion:

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, cafodd Tŷ'r Cwmnïau 10 o gwynion mewn perthynas â'i wasanaethau Cymraeg.

- Daeth un o'r cwynion gan gwsmer a oedd wedi cael gwybod bod angen iddo newid ei cwmni o fod yn gwmni Lloegr a Chymru i fod yn gwmni Cymreig er mwyn ffeilio dogfennau statudol yn Gymraeg. Am fod swyddfa gofrestredig ei gwmni yng Nghymru, roedd y cwsmer yn teimlo na ddylai fod yna gyfyngiad i'w atal rhag cyflwyno dogfennau yn Gymraeg. Fodd bynnag,

mae Deddf 2006 yn darparu taw dim ond cwmnïau sydd wedi hysbysu'r Cofrestrydd y lleolir eu swyddfa gofrestredig yng Nghymru, yn hytrach na Lloegr a Chymru, a gaiff ffeilio dogfennau yn Gymraeg. Fodd bynnag, roedd y cwmni o dan sylw wedi hysbysu'r Cofrestrydd y lleolir ei swyddfa gofrestredig yn Lloegr a Chymru, nid yng Nghymru. Esboniwyd hyn i'r cwsmer ac ni chafwyd unrhyw gysylltiad pellach.

- Roedd cwyn arall yn ymwneud â neges gydnabod uniaith Saesneg a gafodd cwsmer gan ein Canolfan Gyswllt. Anfonir y neges gydnabod yn awtomatig pan fo neges e-bost yn dod i law. Ni all y system wahaniaethu rhwng ieithoedd, felly dim ots ym mha iaith yr anfonir y neges wreiddiol, anfonir ymateb awtomatig yn Saesneg. Ar ôl agor y neges, anfonir ateb dros dro yn iaith y neges wreiddiol. Anfonwyd llythyr o ymddiheuriad at y cwsmer gan esbonio pam yr anfonwyd y neges gyntaf yn Saesneg. Dywedwyd wrth y cwsmer y gallai anfon ymholiadau'n uniongyrchol at Gydlynnydd y Gymraeg yn y dyfodol. Ni chafwyd unrhyw ohebiaeth bellach gan y cwsmer.
- Cwynodd un cwsmer nad yw'r cyfleuster Cyd-ffeilio Cyfrifon ar ein tudalennau WebFiling ar gael yn Gymraeg. Caiff rhai cwmnïau ffeilio cyfrifon ar-lein gyda TC a CThEM yr un pryd. Ar hyn o bryd, mae'r cyfleuster hwn ar gael yn Saesneg yn unig. Fodd bynnag, rydyn ni'n parhau i ystyried cwmpas unrhyw newidiadau i'n systemau yn y dyfodol. Anfonwyd llythyr o ymddiheuriad at y cwsmer.
- Roedd cwyn arall a ddaeth i law yn beirniadu safon y Gymraeg ar rai o'r tudalennau WebFiling. Roedd hyn yn debyg i gŵyn arall a gawsom yn ystod y cyfnod adrodd diwethaf, a oedd yn cyfeirio at y tudalennau WebFiling yn gyffredinol yn hytrach na thudalennau penodol. Y tro hwn, darparodd y cwsmer sgrinluniau o dudalen unigol, a oedd yn dangos bod yna eiriau Cymraeg yn y drefn anghywir. Anfonwyd llythyr o ymddiheuriad at y cwsmer, a gofynnwyd i'n hadran TG gywiro'r cod fel bod y geiriau Cymraeg yn y drefn gywir yn y dyfodol. Nid oes unrhyw gwynion pellach wedi dod i law.

- Cafwyd cwyn gan gyfarwyddwr cwmni a oedd wedi cael llythyr Saesneg yn hytrach nag un dwyieithog. Pan fo cwmni'n anghydfurfio â'u gofynion ffeilio, rydyn ni'n anfon llythyrau awtomatig i gyfeiriad swyddfa gofrestredig y cwmni, ac i gyfeiriadau'r cyfarwyddwyr. Os yw'r cwmni wedi gofyn am ohebiaeth ddwyieithog, anfonir llythyr dwyieithog i gyfeiriad y swyddfa gofrestredig, ond anfonir llythyrau Saesneg i gyfeiriadau'r cyfarwyddwyr am fod ein system yn nodi dewis dwyieithog yn erbyn y cwmni yn hytrach na'r unigolyn. Anfonwyd llythyr o ymddiheuriad at y cyfarwyddwr, ynghyd â chyfieithiad Cymraeg o'r llythyr o dan sylw. Rydym wedi gwneud trefniadau i alluogi i llythyrau awtomatig dwyieithog gael eu hanfon i gyfeiriadau'r cyfarwyddwyr erbyn hyn.
- Mae TC yn anfon llythyr atgoffa i gyfeiriad swyddfa gofrestredig cwmni pan fo'i Gyfrifon Blynyddol yn ddyledus. Oni bai bod y cwmni wedi gwneud cais penodol am ohebiaeth ddwyieithog, anfonir y llythyrau hyn yn Saesneg yn awtomatig. Daeth cwyn i law gan swyddog cwmni am lythyr uniaith Saesneg. Ymddiheurwyd i'r swyddog, a gwnaed nodyn ar ein system er mwyn sicrhau bod yr holl llythyrau awtomatig a anfonir at y cwmni hwn yn y dyfodol yn ddwyieithog.
- Nid oedd cwsmer a oedd yn defnyddio ein gwasanaeth WebFiling yn gallu defnyddio 'Cymru' yn ei gyfeiriad am fod y system yn ei droi'n awtomatig i 'Wales'. Rydyn ni'n defnyddio system 'chwilio am gyfeiriad' y Post Brenhinol, sydd ar gael yn uniaith Saesneg. Anfonwyd llythyr o ymddiheuriad at y cwsmer, ynghyd â chyfarwyddiadau i deipio 'Cymru' â llaw wrth ffeilio gwybodaeth yn y dyfodol, a chaiff hyn ei dderbyn.
- Tynnodd aelod o'r cyhoedd ein sylw at y ffaith fod hysbysiad yn y tai bach yn y dderbynfa yn uniaith Saesneg. Mae ein Cynllun Iaith yn datgan y bydd pob hysbysiad yn ein manau cyhoeddus yn ddwyieithog. Anfonwyd nodyn atgoffa at dîm Rheoli'r Ystadau, ynghyd â chyfieithiad Cymraeg o'r hysbysiad Saesneg. Mae'r peth wedi cael ei unioni erbyn hyn.
- Cafodd enw a gynigiwyd ar gyfer cwmni ei wrthod am ei fod yn cynnwys acen grom, sy'n nod a waherddir yn y Rheoliadau Enwau Cwmnïau, y mae'n rhaid i bob enw cwmni gydymffurfio â nhw. Aeth yr achwynydd

â'r cwyn at Gomisiynydd y Gymraeg. Esboniodd TC y ffaith nad oedd modd derbyn acen grom mewn enw cwmni wrth y cwsmer, ond cynghorodd y cwsmer y câi'r cais ei dderbyn pe bai'n ei ailgyflwyno, ond y byddai'r enw'n ymddangos ar y Gofrestr heb yr acen. Mae'r cwmni wedi cael ei gorffori erbyn hyn.

- Anfonwyd llythyr at gwmni Cymreig i gynnig y dewis iddo gofrestru i gael gohebiaeth ddwyieithog. Cafodd y llythyr ei ddychwelyd gyda chyfarwyddiadau bod y cwmni'n mynnu cael gohebiaeth Gymraeg ac nid gohebiaeth ddwyieithog. Wrth gwyno, dywedodd y cwsmer nad oeddem yn trin y Gymraeg ar sail gyfartal â'r Saesneg trwy ofyn i gwmnïau Cymreig gofrestru ar gyfer gwasanaeth Cymraeg. Mae TC o ddifrif calon am ei Bolisi Iaith, a lle bo'n ymarferol ac nad yw'n anghymesur, rydym yn trin y ddwy iaith yn gyfartal. Anfonwyd ateb at y cwsmer a oedd yn esbonio, er y caiff unrhyw lythyr a anfonir atom yn Gymraeg ei ateb yn uniaith Gymraeg, mae pob llythyr sy'n cael ei gynhyrchu'n awtomatig yn ddwyieithog am ei bod hi'n bosibl bod gan gwmnïau gymysgedd siaradwyr Cymraeg a Saesneg.

## Casgliad

Bydd yr Uwch Ymgynghorydd Polisi, y Tîm o Siaradwyr Cymraeg a'r Pwyllgor Iaith yn parhau i sicrhau bod ein holl gydweithwyr yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o dan y Cynllun Iaith. Byddwn yn cynnal ein hymrwymiad i ddal ati i wella trwy raglen o welliannau parhaus ar gyfer ein cwsmeriaid sy'n siarad Cymraeg.



## Cynllun Gweithredu: Tŷ'r Cwmnïau

### 1. Deddfwriaeth a Mentrau

Camau Angenrheidiol	Dyddiad targed	Perchennog	Cynnydd hyd yn hyn/Nodiadau
Adolygu'r Cynllun Gweithredu pob chwarter	Pob chwarter	Strategaeth a Pholisi	Cafodd y Cynllun Gweithredu ei adolygu yn rhan o gylch gorchwyl y Pwyllgor Iaith a gynhaliodd gyfarfodydd ym mis Mehefin, Medi a Rhagfyr 2013 ac ym mis Mawrth 2014
Adolygu'r Cynllun Strategol pob chwarter i gyd-fynd â'r Cynllun Gweithredu ar yr iaith Gymraeg	Pob chwarter	Strategaeth a Pholisi	Yn ystod y cyfnod o dan sylw, datblygwyd cynllun strategol 5 mlynedd newydd a roddodd ystyriaeth lwyr i'r Gymraeg
Ystyried sut y bydd polisiau, projectau a datblygiadau newydd yn cyd-fynd ag ymrwymadau'r Cynllun Iaith	Yn parhau	Strategaeth a Pholisi	Rydyn ni wedi parhau i ystyried ein Cynllun Iaith wrth gychwyn polisiau, projectau a datblygiadau newydd, fel y mae'r adroddiad hwn yn ei ddangos, a byddwn yn dal ati i wneud hynny
Galluogi cwmnïau Cymreig i fwynhau "Profiad Cymraeg" wrth gorffori	Hydref 2012	Cyflawni Atebion Busnes	Cwblhawyd hyn yn Hydref 2012
Hwyluso gwasanaeth corffori ar-lein cyflawn ar gyfer cwmnïau Cymreig yn TC	Mawrth 2013	Cyflawni Atebion Busnes	Cwblhawyd hyn ar 6 Ebrill 2013
Gwella'r gwasanaeth Newid Enw ar WebFiling er mwyn cynhyrchu cyfieithiad o'r dystysgrif (sy'n cael ei hadolygu ar hyn o bryd)	Mawrth 2013	Y Gyfarwyddiaeth Cyflawni ar gyfer Cwsmeriaid	Wrth i ni ddatblygu un gwasanaeth ar-lein ar gyfer cwsmeriaid, mae'r prosiect wedi cytuno i ddatblygu mwy o wasanaethau Cymraeg na'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd, gan gynnwys y gwasanaeth newid enw trwy WebFiling

### 2. Staffio

Camau Angenrheidiol	Dyddiad targed	Perchennog	Cynnydd hyd yn hyn/Nodiadau
Cynnal yr hyfforddiant iaith cyfredol, gan dargedu sgiliau Cymraeg llafar	Yn parhau	Adnoddau Dynol	Gweler yr adroddiad
Sicrhau bod staff sy'n siarad Cymraeg yn bresennol yn yr holl brif adrannau gweithredol er mwyn sicrhau bod siaradwyr Cymraeg ar gael i ddiwallu gofynion ym mhob maes	Yn parhau	Cyfarwyddwyr	Gweler yr adroddiad
Hyrwyddo'r hyn sy'n ofynnol o TC o dan y Cynllun Iaith yn fewnol, gan sicrhau bod staff yn deall eu cyfrifoldebau ac yn gwybod ble i droi am gymorth	Yn parhau	Strategaeth a Pholisi	Defnyddiwyd y safle mewnwyd yn rheolaidd i dynnu sylw ein staff at ein hymrwymiad i'n Cynllun Iaith, a byddwn yn parhau i wneud hynny
Cynnal y tîm Cymraeg yn TC er mwyn darparu gwasanaethau ar gyfer cwsmeriaid Cymraeg ym mhob maes a chynnal cyfarfodydd cyson i drafod problemau a chynnydd	Yn parhau	Cyflawni ar gyfer Cwsmeriaid	Parhaodd y tîm Cymraeg i ddarparu gwasanaethau a daethant at ei gilydd am gyfarfod bob mis

### 3. Ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, arddangosfeydd, hysbysebion a datganiadau i'r wasg

Camau Angenrheidiol	Dyddiad targed	Perchennog	Cynnydd hyd yn hyn/Nodiadau
Sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn mynychu pob digwyddiad yng Nghymru lle mae presenoldeb gan TC	Yn parhau	Y Tîm Digwyddiadau	Gweler yr adroddiad
Sicrhau bod deunyddiau Cymraeg ar gael mewn unrhyw achlysuron a gynhelir yng Nghymru	Yn parhau	Y Tîm Digwyddiadau	Gweler yr adroddiad
Sicrhau bod hysbysebion a datganiadau i'r wasg sy'n cael eu cyhoeddi yng Nghymru ar gael yn Gymraeg	Yn parhau	Adnoddau Dynol/ICT	Mae pob hysbyseb recriwtio wedi ymddangos yn Gymraeg ar ein gwefan yn ystod y cyfnod hwn. Ni baratowyd unrhyw ddatganiadau i'r wasg



#### 4. Cyhoeddiadau a ffurflenni

Camau Angenrheidiol	Dyddiad targed	Perchennog	Cynnydd hyd yn hyn/Nodiadau
Sicrhau bod holl gyhoeddiadau Cymraeg TC yn cael eu diweddarau'r un pryd â'r fersiynau Saesneg	Yn parhau	Strategaeth a Pholisi	Mae TC yn parhau i sicrhau bod cyhoeddiadau Cymraeg yn cael eu diweddarau yr un pryd â'r cyhoeddiadau Saesneg
Sicrhau bod yr holl ffurflenni statudol Cymraeg yn cael eu diweddarau'r un pryd â'r fersiynau Saesneg	Yn parhau	Strategaeth a Pholisi	Gweler yr adroddiad
Monitro defnydd o lythyrau er mwyn sicrhau bod fersiynau Cymraeg yn cael eu defnyddio pan fo hynny'n briodol	Yn parhau	Datblygu Newid Busnes	Gweler yr adroddiad

#### 5. Gwefannau

Camau Angenrheidiol	Dyddiad targed	Perchennog	Cynnydd hyd yn hyn/Nodiadau
Sicrhau bod y wefan Gymraeg yn cael ei diweddarau'r un pryd â'r fersiwn Saesneg pan fo hynny'n berthnasol, a bod y wybodaeth ar y wefan Gymraeg yn gyfoes	Yn parhau	Ffocws ar Gwsmeriaid	Cafodd dros 124 o newidiadau i'r wefan eu cyflwyno er mwyn diweddarau'r wefan Gymraeg

#### 6. Cyfarfodydd wyneb yn wyneb

Camau Angenrheidiol	Dyddiad targed	Perchennog	Cynnydd hyd yn hyn/Nodiadau
Sicrhau bod modd i gwsmeriaid ofyn am gael siarad â siaradwr Cymraeg os ydynt am gynnal eu busnes yn Gymraeg	Yn parhau	Gwasanaethau i Gwsmeriaid	Gweler yr adroddiad

#### 7. Cyfathrebu ar Ffôn

Camau Angenrheidiol	Dyddiad targed	Perchennog	Cynnydd hyd yn hyn/Nodiadau
Sicrhau bod modd i gwsmeriaid sydd am gynnal eu busnes yn Gymraeg ofyn (yn Saesneg) am gael siarad â siaradwr Cymraeg	Yn parhau	Gwasanaethau i Gwsmeriaid	Gweler yr adroddiad

#### 8. Arwyddion

Camau Angenrheidiol	Dyddiad targed	Perchennog	Cynnydd hyd yn hyn/Nodiadau
Sicrhau bod yr holl arwyddion cyhoeddus ar gyfer swyddfa Caerdydd yn ddwyieithog	Yn parhau	Gwasanaethau'r Adeiladau	Cwblhawyd. Byddwn yn parhau i fonitro hyn

#### 9. Cwynion

Camau Angenrheidiol	Dyddiad targed	Perchennog	Cynnydd hyd yn hyn/Nodiadau
Sicrhau bod cwynion am wasanaethau Cymraeg TC yn cael eu harchwilio'n fanwl ac yn cael eu datrys yn brydlon, a hynny'n unol â threfn gwynion arferol Tŷ'r Cwmnïau	Yn parhau	Gwasanaethau i Gwsmeriaid	Gweler yr adroddiad
Monitro'r cwynion am wasanaethau dwyieithog	Yn parhau	Gwasanaethau i Gwsmeriaid	Gweler yr adroddiad

# [www.tyrcwmniau.gov.uk](http://www.tyrcwmniau.gov.uk)

Canolfan Cyswllt a gwybodaeth: **0303 1234 500**

Er dibenion hyfforddi a sicrhau ansawdd, fe allai eich galwad gael ei monitro

mini-com: 029 2038 1245

[enquiries@companieshouse.gov.uk](mailto:enquiries@companieshouse.gov.uk)

[www.tyrcwmniau.gov.uk](http://www.tyrcwmniau.gov.uk)

**Caerdydd:** Tŷ'r Cwmnïau  
Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ.

**Caeredin:** Companies House  
4th Floor, Edinburgh Quay 2,  
139 Fountainbridge, Edinburgh, EH3 9FF.

**Llundain:** Companies House  
4 Abbey Orchard Street, Westminster,  
London, SW1P 2HT.

**Belfast:** Companies House  
Second Floor, The Linenhall,  
32-38 Linenhall Street, Belfast, BT2 8BG.